**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 31 Hydref 2023 am

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Stephens | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd R Davis | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd G L Warren |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd J Bonetto

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd C Lisles |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Sheryl.Evans | Y Cynghorydd Sera Evans |

**28 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud

Y Cynghorydd G Caple - Datganiad personol, mae fy chwaer yn gweithio yn y gwasanaeth gofal yn y cartref

Y Cynghorydd J Edwards - Datganiad personol, rydw i'n adnabod un o'r siaradwyr cyhoeddus

Y Cynghorydd C Middle - Datganiad personol, mae fy ngwraig i'n weithiwr gofal critigol ar gyfer Advantage Health Care Limited

Y Cynghorydd R Bevan - Datganiad personol, mae fy chwaer-yng-nghyfraith yn gynhaliwr 'cymorth yn y cartref'

Y Cynghorydd K Morgan - Datganiad personol, (*roedd y Cynghorydd wedi gadael y cyfarfod yn ystod y bleidlais ar yr eitem yma*) a hithau'n llofnodwr ar gyfer y Cais Galw i Mewn

**29 GALW PENDERFYNIAD Y CABINET I GOMISIYNU GWASANAETHAU GOFAL YN Y CARTREF I MEWN**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r drefn ar gyfer y cyfarfod, fel sydd wedi'i nodi yn rheol 17 o Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cais i alw penderfyniad i mewn wedi dod i law oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K Morgan, C Lisles a K Johnson, a hynny o fewn y cyfyngiad amser rhagnodedig ar 26 Hydref 2023. Roedd y cais yn cydymffurfio â'r meini prawf perthnasol ac yn cael ei ystyried yn ddilys gan y swyddog priodol.

Roedd y cais i alw penderfyniad i mewn yn gofyn bod penderfyniad y Cabinet mewn perthynas ag adroddiad ar Gomisiynu Gwasanaeth Gofal yn y Cartref a gafodd ei wneud yn ystod cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023 yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Rhoddodd wybod y bydd y tri Aelod Etholedig a oedd wedi llofnodi'r cais yn cael eu gwahodd i annerch y Pwyllgor, gan amlinellu'u rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn (gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth- Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhinwedd ei swydd yn Swyddog Priodol), gan egluro pam y dylai'r penderfyniad gael ei gyfeirio'n ôl at y sawl a oedd yn gyfrifol am y penderfyniad fel bod modd ei ailystyried. Yna bydd y siaradwyr cyhoeddus yn cael cyfle i annerch yr Aelodau cyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod o'r Cabinet annerch yr Aelodau er mwyn ymateb i sylwadau'r siaradwyr. Bydd y Cadeirydd wedyn yn gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i drafod y rhesymau dilys sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ynghyd â sylwadau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod o'r Cabinet ynghylch a ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at y Cabinet er mwyn ei drafod eto. Wedyn, bydd y Swyddog a'r Aelod o'r Cabinet yn cael eu gwahodd i ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cadarnhawyd y byddai gan un o'r llofnodwyr enwebedig yr hawl i wneud anerchiad olaf i'r Pwyllgor yn union cyn cynnal pleidlais ynglŷn â chyfeirio'r mater yn ôl i'w ailystyried. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd fydd egluro a chrynhoi effaith penderfyniad y Pwyllgor. Cadarnhaodd y Cynghorydd K

Morgan y bydd hi'n gwneud yr anerchiad olaf i'r Pwyllgor ac yna'n gadael cyn i'r bleidlais ddechrau.

**Y Cynghorydd K Morgan**

Rhoddodd y Cynghorydd K Morgan wybod ei bod hi wedi llofnodi'r ffurflen galw i mewn gan nad oedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cael cyfle i gynnal gwaith rhag-graffu cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Mynegodd bryder am sut mae'r cynnig yn effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r staff gan nodi nad oedden wedi gallu manteisio ar unrhyw gyfnod ymgynghori cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Rhoddodd wybod bod y Cabinet wedi derbyn deiseb yn erbyn y cynnig ond dydy'r cofnodion ddim yn nodi bod y Cabinet wedi trafod y ddeiseb cyn gwneud penderfyniad. Ychwanegodd fod nifer o ddefnyddwyr y gwasanaeth wedi mynegi eu hanfodlonrwydd gyda darparwyr preifat, a'u bod nhw'n fodlon gyda Gwasanaeth Gofal yn y Cartref y Cyngor, er hynny, does dim ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda defnyddwyr y gwasanaeth, eu teuluoedd, y staff na'r Undebau Llafur. Ychwanegodd nad yw'r goblygiadau ariannol yn cynnig llawer o fanylion, er eu bod nhw'n nodi bod y cynnig yn gost effeithlon. Mynegodd y Cynghorydd bryderon am y broses dendro, gan nodi y dylid ceisio dull sy'n seiliedig ar ddeilliannau yn unol â Deddf Llesiant a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond nid yw hyn wedi cael ei weithredu. Er bod yr adroddiad yn nodi y bydd telerau ac amodau'r staff yn cael eu diogelu gan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE), nid oes unrhyw fanylion o ran pa mor hir y bydd hyn yn wir ac a fydd angen i'r staff sy'n trosglwyddo llofnodi contractau newydd. Mynegodd y Cynghorydd bryderon o ran y posibilrwydd o golli staff medrus wrth iddyn nhw ymuno ag Awdurdodau Lleol eraill.

Nododd y Cynghorydd K Morgan y byddai gwaith rhag-graffu mewn perthynas â'r eitem yma'n cefnogi Aelodau i ennill dealltwriaeth well o effaith bosibl y cynnig, boed yn gadarnhaol neu negyddol. Nododd fod y gofal sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn osgoi symud cleifion i'r ysbyty ac yn cefnogi'n trigolion hŷn sy'n fwy agored i niwed i gynnal ansawdd bywyd yr unigolyn. Gan ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cynigion, roedd hi'n parhau i fod yn bryderus. Os nad yw anghenion yr unigolion yn cael eu diwallu gan ddarparwyr preifat, nododd fod y Cyngor mewn perygl o wneud defnyddwyr gwasanaeth yn fwy agored i niwed drwy beidio â darparu gwasanaeth gofal yn y cartref mewnol. Esboniodd ei bod hi wedi bod mewn cyswllt â theuluoedd nad yw eu hanghenion wedi cael eu diwallu ers i'r Gwasanaeth Gofal yn y Cartref gyda'r nos ddod i ben. Nid yw eu hanghenion yn cael eu diwallu gan fod staff yn ymweld â'r cartrefi yn gynharach yn y nos a dydy unigolion sy'n derbyn gofal diwedd oes ddim yn cael y cyfle i ddewis marw yn y cartref gan nad oes modd i ddarparwyr preifat na darparwyr RhCT ddiwallu eu hanghenion yn y cartref. Ychwanegodd nad yw'r adroddiad yn ystyried unrhyw opsiynau eraill, ar wahân i breifateiddio'r gwasanaeth.

**Y Cynghorydd C Lisles**

Nododd y Cynghorydd fod gweithdrefnau'r Cyngor yn golygu bod modd trafod cynigion cyn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Dywedodd fod y dull yma'n cynnig nifer o fanteision megis cynnwys ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol fel bod modd dylanwadu ar y cynnig a'i wella. Mae modd i'r Aelodau sy'n rhan o'r Pwyllgorau Craffu herio tybiaethau, trafod risgiau a manteision a helpu i sicrhau bod cynnig cadarn yn cael ei sefydlu. Ychwanegodd fod y broses hon yn broses dryloyw sy'n rhoi cyfle i bob aelod o'r cyhoedd dwyn y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau i gyfrif ac yn sicrhau bod llais y cyhoedd a'r staff yn cael ei glywed. Mae dilyn gweithdrefnau cyfranogiad y cyhoedd yn golygu bod penderfyniadau'n cael eu trafod gan bawb ac yn benderfyniadau cadarn. Cyfeiriodd y Cynghorydd at sylwadau Swyddog mewn cyfarfod blaenorol, nododd fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng y penderfyniadau y dylai'r Pwyllgorau Craffu eu trafod a dim ond penderfyniadau allweddol fyddai'n dilyn y broses hon. Ychwanegodd fod y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd a gwaith rhag-graffu, ond eto nid oedd y cynnig yma'n dilyn yr un broses, er bod y newidiadau i ofal cymdeithasol yn cael eu hadolygu ym mis Mawrth. Felly, rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw a rhoddwyd cyfle i'r mater gael ei drafod a'i gynnwys yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Craffu perthnasol. Ychwanegodd y Cynghorydd na ddylai'r gallu i alw penderfyniad i mewn ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud ddisodli gwaith rhag-graffu mewn perthynas â'r penderfyniad, cyn iddo gael ei wneud. Nid oedd yr Aelod yn cytuno bod yr adroddiad yn gynhwysfawr, roedd yn cynnwys ychydig iawn o fanylion am arbedion o ran costau, a dywedodd swyddogion y dylid gwneud arbedion ond does dim tystiolaeth o hyn. Un o'r rhesymau allweddol dros gyflwyno'r cynnig yw cynaliadwyedd, ond nid oes unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad am faint o'r staff fydd yn trosglwyddo i swydd newydd yn y sector preifat. Ychwanegodd y Cynghorydd fod y Prif Weithredwr wedi dweud nad yw'n credu y bydd gostyngiad yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, ond gofynnodd am ragor o wybodaeth am y trefniadau wrth gefn sydd ar waith os nad yw'r staff yn dewis symud i'r gwasanaeth newydd. Roedd y Cynghorydd wedi annog y Cyngor i wrthod trosglwyddo'r gwasanaeth gofal yn y cartref i'r sector preifat ac ailystyried y penderfyniad er mwyn cadw ymddiriedaeth ei weithwyr a'i drigolion.

**<u>Y Cynghorydd K Johnson</u>**

Aeth y Cynghorydd Johnson ati i gydnabod bod y Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol a fydd yn effeithio ar benderfyniadau am newidiadau i wasanaethau. Fodd bynnag, pan fydd newidiadau yn cael eu cyflwyno, dylai'r penderfyniad gael ei wneud yn rhan o ymgynghoriad agored a dim ond os gellir canfod arbedion sylweddol y dylid eu gweithredu. Mae'r adroddiad yn nodi mai un o'r rhesymau dros roi'r 10% o'r Gwasanaethau Gofal yn y Cartref sy'n weddill dan gontract allanol yw er mwyn cyflawni gwerth gorau i'r Cyngor, fodd bynnag nid oes unrhyw ragamcanion cost clir wedi'u nodi yn y cynigion. Gofynnodd sut y gellid arbed costau pan fydd y gwasanaethau'n cael eu rhoi dan gontract allanol

gyda sefydliadau nad ydyn nhw'n elusennau. Aeth y Cynghorydd ymlaen i ddweud na chafodd unrhyw arbedion o ran costau eu nodi ar unrhyw adeg yn ystod cyfarfod diweddar y Cabinet lle cafodd Aelodau'r Cabinet gyfle i ofyn cwestiynau. Yn ystod y cyfarfod, cafwyd adroddiadau anghyson hefyd o ran y gwaith ymgysylltu â'r Undebau Llafur. Ychwanegodd nad yw'r cynnig sydd gerbron yr Aelodau yn dangos unrhyw arbedion o ran costau, nac yn dangos sut y bydd hyn yn arwain at wasanaeth mwy effeithlon. Nododd hefyd fod nifer o ffactorau allweddol heb eu cynnwys yn rhan o'r arbedion posibl megis pwysau'r farchnad a chostau ychwanegol yn dilyn TUPE a phensiynau staff. Roedd y Cynghorydd yn bryderus am y diffyg ymgynghori ymlaen llaw gyda staff, Undebau Llafur a phartneriaid ac gofynnodd fod y penderfyniad hwn yn cael ei ailystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Mrs Wendy Gane**

Dywedodd Mrs Gane ei bod wedi bod yn derbyn Gwasanaethau Gofal yn y Cartref am y 12 mlynedd diwethaf gan ei bod yn cael ei heffeithio gan salwch cronig, dydy hi ddim yn gallu byw heb gymorth staff medrus a chymwys y Cyngor. Ychwanegodd nad oedd y Cyngor wedi ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth na'r Undebau Llafur cyn gwneud y penderfyniad yma ac roedd hi o'r farn nad yw hyn yn cydymffurfio â'r Polisi Partneriaeth Gymdeithasol na Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor. Daeth â'i chyfraniad hi i ben drwy nodi bod y cynhalwyr wedi peryglu eu bywydau drwy weithio yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 a bod hyn wedi eu gadael nhw a'r defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n ofidus ac yn bryderus am eu dyfodol.

**Mr Peter Crews - Cynrychiolydd yr Undebau Llafur**

Mynegodd Mr Crews bryderon mewn perthynas â pheidio ag ymgynghori â'r Undebau Llafur a Defnyddwyr Gwasanaeth gan nodi y dylen nhw fod wedi cael eu cynnwys yn gynnar yn y broses i drafod yr opsiynau posibl ar gyfer ad-drefnu'r gwasanaeth i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Aeth ati i ddweud bod yr adroddiad yn brin o fanylion ynghylch yr arbedion effeithlonrwydd fydd yn cael eu cyflawni yn sgil y penderfyniad yma ac ychwanegodd fod y sector preifat yn dilyn yr un rheoliadau â'r sector cyhoeddus o ran gwasanaethau gofal yn y cartref. Anogodd yr Aelodau i gyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Cabinet i roi cyfle iddyn nhw ailystyried y penderfyniad a gofyn am ragor o wybodaeth am sut mae'r cynnig yn cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd yma.

**Mr Craig Jones - Cynrychiolydd yr Undebau Llafur**

Dywedodd Mr Jones fod yr effaith ariannol wedi'i nodi fel un o'r rhesymau dros y cynnig ac mai'r ateb mwyaf cost effeithiol yw trosglwyddo'r gwasanaethau i ddarparwr preifat. Ychwanegodd fod darparwyr allanol a'r Cyngor yn wynebu'r un costau a gorbenion, megis costau rheoli a phensiynau. Anogodd yr Aelodau i gyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Cabinet i'w ailystyried, a hynny ar ôl iddyn nhw gael dealltwriaeth well o'r arbedion a nodwyd.

---

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r holl siaradwyr am eu sylwadau a rhoddodd gyfle i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ymateb i'r sylwadau a

wnaed.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd y Gwasanaethau i Oedolion yn parhau i gefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Bydd y cynnig yn cefnogi darparu gwasanaeth mwy cost effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian, a gwasanaeth cynaliadwy heb leihau argaeledd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Aeth ymlaen i nodi y bydd swyddi gofal rheng flaen hefyd yn cael eu diogelu a bydd rheoliadau TUPE yn berthnasol i unrhyw ddarparwyr sydd newydd eu comisiynu.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod y bydd y Gwasanaethau i Oedolion yn sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd a gomisiynir yn cael eu darparu mewn parthau daearyddol newydd i sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth a lleihau amser teithio i staff, a bydd unrhyw wasanaeth newydd yn cael ei ddarparu ar sail canlyniadau personol yn hytrach nag amser a thasg. Aeth ati i esbonio y bydd y newid yn galluogi staff sy'n darparu gwasanaethau gofal yn y cartref i weithio'n fwy hyblyg, i gefnogi anghenion unigol ac wrth wneud hynny cefnogi ansawdd bywyd gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae tystiolaeth yn dangos bod modd lleihau'r amser a dreulir ar gyfartaledd yn cefnogi pob person trwy deilwra'r gofynion gofal i anghenion unigol. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gefnogi mwy o bobl yn y gymuned. Er mwyn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o newid gweithiwr gofal neu ddarparwr gofal oherwydd y gwaith caffael, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd trefniadau TUPE yn golygu y bydd staff cymwys yn trosglwyddo i ddarparwr newydd ac yn helpu i gynnal sefydlogrwydd yr unigolyn gan sicrhau parhad o ran cymorth yn ystod unrhyw gyfnod o drosglwyddo'r pecyn gofal rhwng darparwyr. Ychwanegodd hefyd y bydd cymorth yn cael ei gynnig i unigolion a'u teuluoedd i sicrhau bod y broses drosglwyddo rhwng gwasanaethau yn ddidrafferth ac er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi, fel yr oedd wedi digwydd yn flaenorol wrth ail-dendro'r gwasanaeth. Aeth ymlaen i ddweud bod angen rheoli cynnydd yn y galw a'r capasiti ar draws y sector, bydd y risg yma'n cael ei liniaru drwy gynnwys gofyniad yn y broses dendro sy'n sicrhau y bydd darpariaeth ar gael pe byddai cynnydd mawr yn y galw a bydd hyn yn destun craffu yn rhan o'r broses. Dywedodd fod yr Awdurdod eisoes yn gweithio gyda'r sector annibynnol i ateb y galw yn seiliedig ar angen a'r risg ac ni fydd capasiti'r gwasanaethau gofal yn y cartref hirdymor yn cael ei leihau. Bydd y newidiadau yn arwain at gynnydd mewn capasiti a fydd yn ein helpu i ymdopi'n well gyda'r cynnydd yn y galw yn y dyfodol. Aeth ymlaen i ddweud bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) wedi cael ei gwblhau. Mae'r Asesiad yma'n nodi effeithiau posibl y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig ynghyd â chamau gweithredu i sicrhau y gellir parhau i ddiwallu eu hanghenion gofal wedi'u hasesu a lliniaru unrhyw effaith negyddol. Pwysleisiodd y bydd y gwasanaeth yn ymgysylltu â'r holl unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad, a'u teuluoedd, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwestiynau a allai fod ganddynt, a hynny cyn i'r contract gael ei ddyfarnu. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru i gynnwys unrhyw risgiau pellach wedi'u lliniaru a nodwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Daeth y Cyfarwyddwr â'i gyfraniad i ben drwy nodi ei fod o'r farn bod yr effaith gadarnhaol yn drech na'r effaith negyddol y mae modd ei lliniaru.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol annerch y Pwyllgor.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod y cynigion yma'n ymateb i gynnydd yn y galw am ofal hir dymor yn y cartref ac yn mynd i'r afael â materion capasiti mae

darparwyr yn eu hwynebu. Mae'r dull diwygiedig yn ceisio sefydlu model cynaliadwy nad yw'n lleihau argaeledd y gwasanaeth, gan wella'r profiad i weithwyr gofal yn y cartref a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd y dull newydd yn cefnogi pobl i barhau i fod mor annibynnol â phosibl. Aeth ymlaen i ddweud ei bod hi'n bwysig nodi bod y Cyngor ar hyn o bryd yn darparu canran fechan o'r ddarpariaeth gofal yn y cartref hirdymor yn Rhondda Cynon Taf a bydd y newidiadau arfaethedig yn gweld y 10% sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i ddarparwyr allanol. Cydnabu'r Aelod o'r Cabinet fod hwn yn benderfyniad anodd a'i fod yn effro iawn i'r pryderon a godwyd ond roedd yn fodlon eu bod nhw wedi cael sylw. Aeth ati i ddweud y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau gofal ailalluogi yn fewnol ac mae'r cynigion yma dim ond yn ymwneud â'r 10% o wasanaethau gofal yn y cartref sy'n weddill. Daeth â'i gyfraniad i ben drwy ddweud ei fod yn fodlon ar y cyngor a'r wybodaeth yr oedd y Cabinet wedi'u derbyn ond nododd fod y pwysau ariannol y maent yn ei wynebu yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelod o'r Cabinet na fyddai unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn digwydd ac y byddai trefniadau TUPE yn berthnasol i staff o dan yr amodau a thelerau presennol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd M Webber, annerch y Pwyllgor.

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd ddiolch i'r Aelodau am y cyfle i annerch y Pwyllgor a rhoddodd sicrwydd iddynt fod yr holl sylwadau a phryderon yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. Aeth y Dirprwy Arweinydd ymlaen i ddweud bod penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy ddeialog gadarn a thryloyw gyda chydweithwyr ac undebau llafur. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod hi wedi cwrdd â'r Undebau Llafur, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor a swyddogion y Cyngor, cyn i'r cynigion gael eu cyflwyno i staff a hynny er mwyn egluro'r rhesymeg dros y cynigion a chafodd y rhain eu cydnabod gan yr Undebau Llafur. Ychwanegodd fod sicrwydd wedi'i roi mewn perthynas â threfniadau TUPE i staff a sut y byddai'r camau nesaf yn cael eu gweithredu ac, yn ogystal â hyn, roedd y Cabinet hefyd wedi ymrwymo i sicrhau na fyddai unrhyw ddiswyddiadau gorfodol o ganlyniad i'r cynigion. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad yw’r cynnig yn golygu newid yn lefel y gwasanaeth a ddarperir i’r rhai sy'n derbyn gofal yn y cartref hirdymor, gan fod 90% o’r gwasanaeth hwn eisoes wedi’i gomisiynu a’i ddarparu gan y sector annibynnol; felly nid yw hyn yn cyfrif fel newid i wasanaeth neu bolisi, mae hwn yn benderfyniad tendro a chaffael sydd wedi ei gyflwyno ar sail cyngor proffesiynol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Gwella annerch y Pwyllgor mewn perthynas â rhai o'r sylwadau a godwyd ynghylch effaith ariannol y cynigion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella fod tasg yn seiliedig ar dystiolaeth wedi'i chynnal er mwyn cymharu cyfraddau mewnol fesul awr â chyfraddau fesul awr y sector annibynnol, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth cyfradd fesul awr debyg yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ati i roi gwybod bod yr Adroddiad i'r Cabinet yn nodi’r gwahaniaeth yn y gyfradd fesul awr rhwng y gwasanaeth mewnol a’r sector annibynnol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod nifer o bethau heb eu cadarnhau ar hyn o bryd, megis canlyniad y broses ail-dendro a sut mae'r sector annibynnol yn ymateb i hyn ac effaith y trefniadau newydd ar gyfer parthau daearyddol. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd

rhagweld y goblygiadau ariannol. Nododd y byddai canlyniad y broses dendro yn cael ei ymgorffori yn nhrefniadau cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor ac y byddai, i bob pwrpas, yn cynrychioli osgoi costau ar y sail debygol y bydd y gyllideb gofal cymdeithasol yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddogion a rhoddodd gyfle i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ofyn cwestiynau mewn perthynas â'r cais galw i mewn.

Gofynnodd Aelod a oedd cyfeiriad at y penderfyniad yn y Rhaglen Waith, sut y gallai'r Pwyllgorau Craffu gyfrannu yn y dyfodol a sut y bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â materion tebyg yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod y Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i'r Aelodau yn y Rhaglenni Gwaith fel bod Aelodau'n cael digon o gyfle i nodi mater i'w rhag-graffu. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i ddweud bod y mater wedi'i nodi yn y Rhaglen Waith sydd wedi'i chyhoeddi ar gyfer y Cabinet ac mae hyn yn rhoi'r cyfle i Bwyllgorau Craffu ofyn i gynnal gwaith rhag-graffu mewn perthynas â'r mater. Gall rhag-graffu chwarae rhan bwysig pan fydd y Cyngor yn ystyried newid mewn polisi neu gynnig a fyddai'n gweld newid yn lefel y gwasanaeth i drigolion, ond mae Aelodau wedi cael gwybod na fydd hyn yn wir yn achos y cynnig yma. Ychwanegodd fod rhag-graffu yn cynrychioli un mecanwaith bosibl ond mae modd hefyd cynnal gwaith craffu yn dilyn penderfyniad lle gall Aelodau herio sut mae'r Cabinet yn mynd ati i weithredu'r penderfyniad, felly mae nifer o gyfleoedd yn dal i fod ar gael i Aelodau.

Gofynnodd Aelod a fyddai angen i Aelodau wneud penderfyniad pellach os yw’r cynnig yn cynnwys defnyddio’r sector annibynnol i barhau i ddarparu 90% o’r gwasanaeth gofal yn y cartref hirdymor.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth drwy ddweud na fyddai'n benderfyniad i'r Aelodau gan y byddai hon yn broses ail-dendro ac mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo mewn perthynas â hyn. Byddai'n cael ei ddwyn ymlaen fel penderfyniad gweithredol.

Gofynnodd Aelod sut mae’r newid arfaethedig yn gwneud gwahaniaeth mor sylfaenol i effeithlonrwydd y gwasanaeth a’i ddeilliannau.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd unrhyw wasanaeth newydd a gomisiynir yn cael ei ddarparu mewn parthau daearyddol newydd, bydd hyn yn lleihau'r pellter teithio a'r amser rhwng galwadau, ac yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth mwy effeithlon. Ychwanegodd y bydd hyn hefyd yn golygu bod modd gwneud defnydd gwell o'r adnoddau a bydd yn helpu i wella trefniadau recriwtio a chadw staff a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth.

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned sicrwydd i'r Aelodau fod y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned yn cael gwybod am yr heriau sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd, cafodd hi wybod y bydd y mater yma'n cael ei ddwyn ymlaen a hefyd sut y bydd y Cyngor yn ymgysylltu â’r Pwyllgor yn y dyfodol. Cadarnhaodd felly ei bod hi'n fodlon na ddylai craffu ar y cynnig hwn fod yn faes sy'n peri pryder ar hyn o bryd.

Cododd Aelod nifer o bryderon ynghylch y broses dendro, TUPE, pensiynau, yr arbedion effeithlonrwydd a hefyd pam nad oedd y penderfyniad yma'n cael ei

ystyried yn benderfyniad allweddol pan fydd 200 o staff yn cael eu heffeithio gan y cynigion.

Atebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ddweud y byddai'r broses dendro yn cael ei rheoli yn unol ag awdurdod dirprwyedig Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys dyfarnu contractau mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Oedolion. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod, yn rhinwedd y swydd hon, wedi rhoi ei farn broffesiynol i'r Cabinet drwy nodi'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a nododd fod hyn yn cynnwys rhoi sylw penodol i'r broses dendro, ac y bydd swyddogion perthnasol eraill yn cael eu cynnwys i gefnogi'r broses, er enghraifft, Gwasanaeth Caffael y Cyngor. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol fod trefniadau TUPE yn diogelu telerau ac amodau cyflogaeth y staff, gan gynnwys pensiynau, ac y bydd yn parhau i fod ar waith cyhyd ag y bo angen. Gallai'r darparwr newydd gynnig contract newydd i staff, ond penderfyniad aelodau unigol o staff yw hyn os ydynt yn dymuno llofnodi'r contract newydd.

Gofynnodd Aelod pa wahaniaeth y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn sylwi arno o ganlyniad i unrhyw newidiadau. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd pecynnau gofal cyfredol yr unigolion yn parhau yn rhan o'r cynigion ac ni fyddan nhw'n gweld unrhyw newid i lefel y gofal a'r cymorth y maen nhw'n eu derbyn. Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i ddweud y bydd unigolion yn cael cynnig cymorth, lle bo angen, i sicrhau bod y broses drosglwyddo yn ddi-dor a nododd y bydd y broses bontio yn cael ei chefnogi gan garfan ymroddedig a fydd mewn cyswllt â'r unigolion a'u teuluoedd yn rheolaidd.

Holodd Aelod am gyfrifoldeb statudol yr Awdurdod gan ofyn a fyddwn ni'n parhau i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn o dan y cynigion presennol. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ddweud y bydd y cynigion yn sicrhau y bydd anghenion wedi'u hasesu'r unigolion yn parhau i gael eu diwallu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor.

Gofynnodd Aelod beth fyddai'r cost pe byddai'r Awdurdod yn penderfynu ailsefydlu 100% o'r gwasanaeth yn wasanaeth mewnol. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella y byddai costau ychwanegol gwerth £12.5miliwn y flwyddyn yn seiliedig ar nifer yr oriau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr preifat ar hyn o bryd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr opsiwn yma'n cael ei ddiystyru o safbwynt ariannol gan nad yw'n fforddiadwy nac yn gynaliadwy, a hynny yng nghyd-destun y ffaith bod y Cyngor yn wynebu bwlch o £85miliwn yn y gyllideb dros y 3 blynedd nesaf.

Yn rhan o'i ymateb i bryderon a godwyd gan Aelod, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd gwaith manwl yn cael ei gynnal i sicrhau bod gan y gwasanaeth ailalluogi a'r gwasanaethau gofal canolraddol mewnol gapasiti yn y dyfodol a bod y gwasanaeth gofal yn y cartref hirdymor wedi'i gomisiynu yn cwrdd â'r galw ac yn diwallu anghenion.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i lofnodwr y cais i alw'r penderfyniad i mewn, y Cynghorydd K Morgan, annerch y Pwyllgor am y tro olaf.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Morgan fod nifer y cwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau yn dangos yr angen am graffu pellach ar y mater. Yn ei barn hi, dyma fater a ddylai fod yn destun gwaith rhag-graffu. Mae'r sylwadau y mae hi wedi'u derbyn gan y cyhoedd yn dangos eu bod nhw'n gwrthwynebu'r penderfyniad ac felly roedd hi'n annog Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i gyfeirio'r mater yn

ôl at y Cabinet i'w ailystyried ac er mwyn iddyn nhw gynnal ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd.

Aeth y Cadeirydd ati i gynnal pleidlais i bennu a ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at y Cabinet er mwyn ailystyried y mater.

Ar ôl trafod y materion ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, **PENDERFYNWYD** na ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at y Cabinet.

**30 Materion Brys**

Dim

**31 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**